

BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS
CASTELL-NEDD PORT TALBOT

# CYNLLUN LLESIANT 2023-28

BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS

# CYNNWYS


Rhagair 1

Cyflwyniad i'r Ddeddf 2

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus CNPT 3

Cefndir 4

Myfyrio ar Waith Blaenorol 4

Asesiad Llesiant 7

Crynodeb o'r Ystyriaethau ar gyfer Castell-nedd Port Talbot 8

Ein Hamcanion Llesiant 15

Beth Byddwn ni'n ei Wneud 16

Llywodraethu 23

Monitro a Gwerthuso 24

Cysylltu â Ni 27




# RHAGAIR

***Y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n gyfrifol am greu cynllun llesiant ar gyfer 2023-2028. Bydd y cynllun yn adeiladu ar waith a gychwynnwyd eisoes yn 2018, gyda phartneriaeth o sefydliadau yn ymdrechu i wneud gwahaniaeth hirdymor i wella bywydau pobl yn CNPT.***

Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cynnal Asesiad Llesiant yn adolygu tirlun cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol CNPT, ac ar sail hynny rydym wedi cytuno ar bedwar amcan llesiant i flaenoriaethu ein gwaith yn ystod y pum mlynedd nesaf .

**Sef:**

- Sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd
- Sicrhau bod ein holl gymunedau yn llewyrchus ac yn gynaliadwy
- Sicrhau bod cenedlaethau'r dyfodol yn gallu mwynhau ein hamgylchedd lleol, ein diwylliant a'n treftadaeth
- Sicrhau bod mwy o swyddi gwyrdd, diogel, am gyflog da, a bod sgiliau'n cael eu gwella ar draws yr ardal

Rydym wedi cymryd i ystyriaeth yr Asesiad Llesiant, tueddiadau i'r dyfodol a data perthnasol arall ar gyfer Castell-nedd Port Talbot, ac wedi cynhyrchu cyfres o gamau y byddwn ni'n eu cymryd i'n helpu i gyflawni ein hamcanion.

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu i'r Cynllun Llesiant hwn a chymryd amser i ymateb i'n hymgynghoriad. Yn ystod y flwyddyn sy'n dod, byddwn yn dechrau rhoi ein syniadau ar waith, gan chwilio am ffyrdd newydd o gynnwys pobl yn y gwaith o adeiladu'r Castell-nedd Port Talbot a Garai pawb ohonom gyda'n gilydd.



S. K. Hunt

**Y Cyng. Steve Hunt**
Cadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot
Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

# CYFLWYNIAD I'R DDEDDF


***Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae hynny'n golygu bod rhaid i'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf wneud eu gwaith mewn ffordd gynaliadwy. Er mwyn gwneud hynny, mae'r Ddeddf yn cyflwyno "egwyddor datblygu cynaliadwy" sy'n ymwneud â sut dylai'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf fynd ati i gyflawni eu dyletswydd llesiant o dan y Ddeddf.***

Mae'r egwyddor yn cynnwys pum ffordd o weithio y mae gofyn bod cyrff cyhoeddus yn eu cymryd i ystyriaeth wrth gymhwyso datblygu cynaliadwy.

**Sef:**

- Edrych i'r hirdymor fel ein bod ni ddim yn peryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.
- Mabwysiadu dull gweithredu integredig, fel bod cyrff cyhoeddus yn edrych ar yr holl nodau llesiant wrth benderfynu ar eu hamcanion llesiant.
- Cynnwys amrywiaeth o'r boblogaeth yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw.
- Gweithio gydag eraill ar y cyd i gael hyd i atebion cynaliadwy a rennir.
- Deall achosion gwaelodol materion i'w hatal rhag digwydd

Mae'r Ddeddf yn gosod saith nod llesiant. Gyda'i gilydd, maent yn darparu gweledigaeth a rennir i'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf weithio tuag ati. Rhaid i'r nodau llesiant gael eu hystyried fel set integredig o saith, er mwyn sicrhau bod y cysylltiadau perthnasol yn cael eu creu yng nghyd-destun gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.



# BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CNPT

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot (BGC) yn dod ag arweinwyr a llunwyr penderfyniadau ynghyd o sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus a'r sector gwirfoddol a chymunedol. Pwrpas y BGC yw gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Castell-nedd Port Talbot. Trwy weithio ar y cyd gall y BGC sicrhau dealltwriaeth ddyfnach o'r materion sy'n bwysig i drigolion CNPT, a chyflwyno gwelliannau'n llawer mwy effeithiol ac effeithlon.  Cewch ragor o wybodaeth am y BGC yma.

## PARTNERIAID STATUDOL

Gwasanaeth Tân Ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru / Mid and West Wales Fire and Rescue Service

Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales

GIG Cymru NHS Wales — Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe / Swansea Bay University Health Board

Cyngor Castell-nedd Port Talbot / Neath Port Talbot Council

## PARTNERIAID A WAHODDIR

Coedffranc Town Council

Grŵp Colegau NPTC Group of Colleges

GIG Cymru NHS Wales — Iechyd Cyhoeddus Cymru / Public Health Wales

CVS Neath Port Talbot / Castell-nedd Port Talbot

Blaenhonddan Community Council

Swansea University / Prifysgol Abertawe

Neath Town Council / Cyngor Tref Castell-nedd

pobl

South Wales Police / Heddlu De Cymru

Llywodraeth Cymru / Welsh Government

Tai Tarian

De Cymru Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu / South Wales Police and Crime Commissioner

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant / University of Wales Trinity Saint David

Coastal Housing Group

Department for Work & Pensions

HM Prison & Probation Service

## CEFNDIR

Bob pum mlynedd, mae rhaid i bob BGC baratoi a chyhoeddi cynllun, yn nodi ei amcanion a'r camau y bydd yn eu cymryd i'w cyflawni. Yr enw ar hyn yw Cynllun Llesiant Lleol, a rhaid iddo.

**Gynnwys:**

- Amcanion Llesiant Lleol
- Camau i'n helpu i gyflawni'r amcanion
- Terfynau amser a chyfrifoldebau
- Manylion ynghylch sut byddwn ni'n cyflawni'r camau yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy



### Myfyrio ar Waith Blaenorol

Sefydlwyd BGC CNPT gyntaf yn 2016 ac mae ei Gynllun Llesiant cyntaf, ar gyfer 2018-23 'Y Castell-nedd Port Talbot a Garem', bellach yn dwyn ffrwyth.

### Gweledigaeth

Rydym am i Gastell-nedd Port Talbot fod yn lle iach a bywiog lle mae gan bobl gyfle cyfartal i ddatblygu yn eu bywydau – rhywle y mae pobl am fyw, dysgu, gweithio, buddsoddi ynddo ac ymweld ag ef am genedlaethau i ddod.

Rydym am i wasanaethau cyhoeddus lleol, sy'n cynnwys y Trydydd Sector, fod yn effeithiol ac yn werth da am arian, yn hawdd i bobl eu defnyddio ac yn cynnig cyflogaeth o safon lle caiff pobl eu gwerthfawrogi am y gwaith maent yn ei wneud. Ar y cyd â'n dinasyddion, byddwn yn adeiladu ar ein cymunedau cryf a chydlynus lle caiff hawliau pawb yn cael eu parchu a'u hamddiffyn.

Rydym am i'n gwasanaethau cyhoeddus ganolbwyntio ar alluogi pobl a chymunedau i fod yn gydnerth a bydd yn arferol i ddinasyddion gael profiad o wasanaethau llyfn, wedi'u personoli ac o safon uchel. Bydd cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus yn creu'r amodau cywir ar gyfer buddsoddi a fydd yn galluogi'r fwrdeistref sirol i ddenu a chynnal cyflogaeth gynaliadwy o safon uchel i bobl leol.

Bydd ein cymunedau wedi'u cysylltu'n dda trwy seilwaith digidol a thrafnidiaeth o'r radd flaenaf a byddwn yn gwerthfawrogi ac yn gwarchod ein hamgylchedd naturiol, bydd bywyd gwyllt yn ffynnu, gan gefnogi dulliau iach o fyw a chymunedau cynaliadwy.

Byddwn yn cyflawni ein gweledigaeth pan fydd pob plentyn a pherson ifanc yn cael y dechrau gorau mewn bywyd; pan fydd gan bob person ifanc ac oedolyn y sgiliau a'r gwydnwch i fod yn iach a llewyrchus; pan fydd pobl yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel; pan fydd ein holl gymunedau yn ffynnu ac yn cefnogi'r bobl sy'n byw ynddynt; a lle gall pobl dderbyn cymorth gan gymdogion a rhwydweithiau cymdeithasol sydd wedi'u datblygu'n dda.



Mae'r gwaith partneriaeth a wnaed yn ystod y cyfnod hwn wedi bod o fudd mawr, gan fod gwahanol sefydliadau wedi cael eu dwyn ynghyd â dealltwriaeth a rennir o'r ardal leol a'r materion sy'n codi yno.

Mae llawer wedi cael ei gyflawni yn y cylch yma, gan gynnwys gwaith mapio helaeth, ac ymgysylltu cymunedol. Mae perthnasoedd cryfach wedi cael eu ffurfio, gyda manteision meddal cydfuddsoddi a bod yn fwy parod i ymateb ar y cyd i ddigwyddiadau niweidiol.

Yn hytrach na chychwyn o dudalen wag, mae'r Bwrdd yn adeiladu ar y gwaith ardderchog a wnaed yn ystod pum mlynedd cyntaf ei fodolaeth, a'r cysylltiadau cryf a ffurfiwyd rhwng partneriaid.

| Ein hymrwymiad... | Ers y cynllun diwethaf, rydym wedi ... |
|---|---|
| **Gwella llesiant plant yn ystod eu blynyddoedd cynnar, gan gynnwys y rhai sydd mewn perygl o wynebu profiadau niweidiol yn ystod eu plentyndod** | • Creu Parth Cymunedol i Blant yng Ngorllewin Sandfields, sef canolfan ar gyfer gweithgareddau cydlynus i deuluoedd.<br>• Sicrhau grant trawsnewid Camau Cynnar Gyda'n Gilydd i gyflwyno dull ymyrraeth gynnar ac ataliaeth mwy cydlynus yn y blynyddoedd cynnar.<br>• Cymryd rhan yn Rhaglen 1000 Diwrnod Cyntaf Llywodraeth Cymru er mwyn amlygu a datblygu protocolau rhannu gwybodaeth am deuluoedd sydd mewn perygl o wynebu profiadau niweidiol yn ystod plentyndod.<br>• Ymuno â Chyngor Abertawe mewn gwaith Braenaru Blynyddoedd Cynnar i dreialu prosiectau sy'n cefnogi datblygiad iaith a lleferydd a datblygu'r gweithlu er mwyn cefnogi llythrennedd corfforol yn y blynyddoedd cynnar.<br>• Gweithio i wella diweithdra ymhlith ieuenctid yn ystod y pandemig, gan weithio gyda phobl ifanc trwy sesiynau cyflogadwyedd a chyrsiau iechyd a llesiant. |
| **Adeiladu cymunedau diogel, hyderus a chydnerth, gan ganolbwyntio ar bobl agored i niwed** | • Sicrhau grant Arloesi a Chreu er mwyn cefnogi grwpiau cymunedol gwirfoddol a mentrau cymdeithasol.<br>• Gweithio gyda chymunedau Castell-nedd Port Talbot i ddatblygu cysylltiadau sy'n canolbwyntio ar bobl, lleoedd a systemau.<br>• Cynnal llawer o weithgareddau cymunedol, gan gynnwys diwrnodau agored, cyfarfodydd cyhoeddus, ac ymgysylltu â chynghorwyr.<br>• Cynnal ffeiriau a gwobrau gwirfoddolwyr yn y gymuned i gryfhau gwaith recriwtio gwirfoddolwyr.<br>• Gweithio ochr yn ochr â thrigolion tuag at system o newid hirdymor er mwyn nodi ble mae angen cymorth a manteisio i'r eithaf ar yr asedau sydd eisoes ar gael yn y gymuned, gan gynnwys pobl a lleoedd. |
| **Creu amgylchedd lle mae pawb yn gallu heneiddio'n dda** | • Asesu graddfa a chwmpas unigrwydd ac ynysu cymdeithasol.<br>• Gweithio gyda Chymdeithas Alzheimer's i gynyddu ymwybyddiaeth a hyfforddiant deall Dementia ar draws y bartneriaeth.<br>• Cysylltu â'r Grŵp Atal Cwympiadau ym Mwrdd Iechyd Bae Abertawe i edrych ar waith atal sylfaenol gyda'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh), gan ganolbwyntio ar waith atal eilaidd a thrydyddol.<br>• Gweithio er mwyn rhoi sylw i gost uchel credyd a dyled trigolion Tai Tarian, sy'n cynnwys gweithio gydag Alliance. |
| **Cefnogi llesiant trwy waith ac yn y gweithle** | • Rhannu arfer gorau gydag aelodau'r BGC er mwyn cefnogi a hyrwyddo iechyd a llesiant yn eu sefydliadau a rhannu datblygiadau ar draws sefydliadau.<br>• Cynnal gweithdai ynghylch Llesiant Staff yn y gweithle gyda Bwrdd Iechyd Bae Abertawe, Cwmni Moduron Ford a Cymru Iach Ar Waith. |
| **Amddiffyn a gwella ein seilwaith gwyrdd** | • Cyflawni gwaith helaeth i fapio mannau gwyrdd a glas yng Nghastell-nedd Port Talbot.<br>• Gweithio gyda Chynghorau Abertawe a Sir Gaerfyrddin ar Brosiect Cysylltu Seilwaith Gwyrdd a fu'n hyrwyddo dull cydweithredol newydd o ddylunio a chyflwyno seilwaith gwyrdd.<br>• Derbyn cyllideb gan Gyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer prosiectau yn ardal CNPT a chyflwyno'r rheiny er mwyn cefnogi mannau gwyrdd cymunedol. |
| **Cynyddu lefelau cyfranogiad a chynhwysiad digidol** | • Gweithio gyda Cymunedau Digidol Cymru i gynyddu ymwybyddiaeth o'u Siarter Cynhwysiant Digidol a gweithio gydag asiantaethau partner i wreiddio eu dull gweithredu<br>• Trwy wreiddio'r Siarter Cynhwysiant Digidol darparwyd gallu sefydliadol ar draws gwahanol sefydliadau'r BGC. Darparodd hynny fan cychwyn cryfach pan oedd angen argaeledd a gallu digidol yn ystod pandemig COVID-19. |

**Asesiad Llesiant**

Yn ystod 2021/22 Mae'r BGC wedi cynnal asesiad lleol helaeth o lesiant. Mae'r canfyddiadau llawn i'w gweld yma.

Yn ystod haf 2021, cyflwynodd Cyngor Castell-nedd Port Talbot holiadur fel rhan o ymgyrch ymgysylltu helaeth. Ymgynghoriad penagored yw 'Dewch i Sgwrsio', ac mae'n gweithredu fel cyfle i'r cyhoedd drafod y pethau sy'n bwysig iddyn nhw. Pwrpas yr holiadur gwreiddiol oedd darganfod beth oedd yn bwysig i'r bobl oedd yn byw ac yn gweithio yng Nghastell-nedd Port Talbot.

Defnyddiwyd yr adborth i ddatblygu cynllun adferiad ar gyfer y fwrdeistref sirol. Cytunwyd y byddai canfyddiadau Dewch i Sgwrsio, oherwydd natur penagored y cwestiynau a ofynnwyd, hefyd yn addas i lywio Asesiad Llesiant CNPT. Rhoddodd canfyddiadau 'Dewch i Sgwrsio', ynghyd â data a gwybodaeth lleol a chenedlaethol, ddarlun clir i ni o lesiant yn ein hardal, gan amlygu ein hasedau a'r heriau rydyn ni'n eu hwynebu.



Bu BGC CNPT yn gweithio ar y cyd â BGC Abertawe ac yn comisiynu Prifysgol Abertawe i gynhyrchu pennod ddadansoddol drosfwaol i gyd-fynd â'r canfyddiadau a darparu darlun ystyrlon o'r hyn mae ein gwybodaeth yn ei olygu i'n cymunedau yn CNPT. Elfennau o'r gwaith hwn sy'n ffurfio adran Grynodeb yr Asesiad, ac yn cyflwyno themâu allweddol ein canfyddiadau.

# SUMMARY OF CONSIDERATIONS FOR NEATH PORT TALBOT

## CYMRU LEWYRCHUS

**ECONOMI WERDD:** CNPT yw un o'r lleoliadau gweithgynhyrchu pwysicaf yn y Deyrnas Unedig o hyd, gyda'r cyfadeilad cynhyrchu dur mwyaf ym Mhort Talbot. Mae datgarboneiddio asedau economaidd pwysig fel hyn i gyrraedd targed Sero Net Llywodraeth Cymru yn her sylweddol. Er bod allyriadau carbon wedi lleihau yn CNPT yn ystod y degawd diwethaf, mae'r gostyngiad hwnnw'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Fodd bynnag, mae cyfleoedd addawol ar gyfer twf yn y dyfodol yn gysylltiedig â datgarboneiddio, er enghraifft trwy weledigaeth Associated British Ports ar gyfer Dociau Port Talbot fel canolbwynt cynhyrchu â phwysigrwydd byd-eang ar gyfer tyrbinau gwynt oddi ar y lan.

**GWEITHLU MEDRUS:** Mae'r galwedigaethau'n dal â lefel is o sgiliau na chyfartaledd y Deyrnas Unedig. Mae angen i ni gydweithio i uwchsgilio ein gweithlu er mwyn ymateb i'r galw hirdymor am swyddi yn yr ardal.

**ADFERIAD WEDI'R PANDEMIG:** Mae cyflogaeth yn adfer wedi'r pandemig, ond mae angen cefnogaeth yng nghyswllt recriwtio i sectorau sy'n tyfu. Mae'r pandemig wedi rhoi cyfle i ni ailystyried sut rydyn ni'n gwneud pethau ac ailadeiladu'n well, mewn modd gwyrdd a theg, sy'n rhoi sylw i argyfyngau'r hinsawdd a byd natur.

**GOFAL PLANT:** Gall costau fod yn rhwystr i gyflogaeth. Mae angen i ni gynyddu'r nifer sy'n manteisio ar yr hyn y gellir ei hawlio, a chefnogi datblygiad y sector hwn.

## CYMRU GYDNERTH

**Terfynau Adnoddau Naturiol:** Rydyn ni'n defnyddio stociau o'n hadnoddau naturiol ar gyflymdra sy'n anghynaliadwy, ac mae ein hecosystemau o dan bwysau a bygythiad cynyddol yn sgîl effeithiau'r newid yn yr hinsawdd, y newid yn y defnydd o dir, rhywogaethau anfrodorol ymwthiol (INNS), llygredd a gorddefnydd.

**Ecosystemau:** Nid yw llawer o'n hecosystemau yn gallu gwrthsefyll newid annisgwyl neu nas rhagwelwyd. Mae hyn yn peryglu gallu ein hamgylchedd naturiol i ddarparu nifer o fanteision llesol hanfodol yn awr ac yn y dyfodol.

**Adferiad seiliedig ar Fyd Natur:** Bydd hinsawdd newidiol yn debygol o effeithio ar gyflwr a dosbarthiad cynefinoedd a rhywogaethau, ac mae cynefinoedd sydd wedi diraddio yn cyfrannu at y newid yn yr hinsawdd. Fodd bynnag, trwy sicrhau adferiad i fyd natur, gallwn ni hefyd fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.

**Asedau Naturiol:** Mae'r trigolion yn gwerthfawrogi ac yn gosod gwerth ar yr asedau naturiol yn CNPT, ond mae angen gwneud mwy i'w gwella a'u helpu i ymadfer yn y tymor hir.

**Llifogydd a Newid Arfordirol:** Risgiau llifogydd a newid arfordirol i gartrefi, cymunedau, busnesau, seilwaith ac ecosystemau yw un o'r prif bryderon ynghylch y newid yn yr hinsawdd yn CNPT.



## CYMRU IACHACH

**POBLOGAETH SY'N NEWID:** Mae cynnydd parhaus yn y boblogaeth hŷn, a hefyd mewn aelwydydd un person, yn debygol o fod yn ffactor sy'n cyfrannu at gynyddu unigrwydd ac ynysu. Mae'r bwlch o ran hyd oes disgwyliedig a hyd oes iach disgwyliedig hefyd yn arwydd o bwysau cynyddol ar wasanaethau cymdeithasol a iechyd.

**MANNAU IACH:** Wrth gymharu â Chymru, gan CNPT mae un o'r deietau lleiaf iach a'r lefelau isaf o weithgaredd corfforol. Mae angen gwaith i wrthweithio'r duedd gynyddol o ran gordewdra, ac mae modd gwneud mwy i sicrhau bod y mannau lle rydyn ni'n byw yn ein helpu i fod yn actif a bwyta'n dda.

**LLESIANT MEDDYLIOL:** Adroddodd trigolion CNPT am lesiant meddyliol cymharol gadarnhaol yn Arolwg Cenedlaethol Cymru. Fodd bynnag, mae angen i ni fod yn barod ar gyfer cynnydd mewn lefel isel o lesiant meddyliol a chyflyrau iechyd meddwl wrth i wir effeithiau'r pandemig ddod i'r amlwg.

**TAI:** Mae angen mwy o dai fforddiadwy arnon ni yn CNPT, gyda 1,037 o gartrefi newydd yn ofynnol erbyn 2033. Mae'n galonogol bod 434 o unedau newydd wedi cael eu hadeiladu rhwng 2018 a 2021.

**ANSAWDD AER:** Er bod ansawdd aer ar draws CNPT wedi gwella yn ystod y degawd diwethaf, mae'n dal yn faes sy'n destun pryder ac yn flaenoriaeth allweddol er mwyn gwella iechyd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

## CYMRU SY'N FWY CYFARTAL

**AMDDIFADEDD A THLODI:** Mae crynodiadau uchel o amddifadedd a thlodi yn parhau mewn ardaloedd yn CNPT. Bydd y cynnydd presennol mewn costau byw yn effeithio fwyaf ar yr ardaloedd hyn.

**INCWM AELWYDYDD:** Mae incwm aelwydydd wedi gostwng ar draws Cymru yn ystod y pandemig, ac mae'n fwy tebygol o effeithio ar bobl sydd ag incwm isel i ganolig.

**EFFAITH COVID-19:** Mae Covid-19 wedi cynyddu anghydraddoldeb yn gyffredinol yn CNPT, ac mae'r grwpiau yr effeithiwyd waethaf arnynt yn cynnwys Lleiafrifoedd Ethnig a Phobl Ddu, benywod a phobl ifanc.

**ADDYSG:** Ymddengys bod y pandemig wedi cynyddu anghydraddoldeb o ran cyrhaeddiad addysgol, ac mae'n bosibl nad yw hyd a lled yr effaith hon yn amlwg eto. RISG AMGYLCHEDDOL: Y rhai mwyaf bregus yn y gymdeithas sy'n wynebu'r risg amgylcheddol uchaf fel ansawdd aer gwael a llifogydd. Disgwylir i'r newid yn yr hinsawdd waethygu'r anghydraddoldebau hyn, ac mae perygl y bydd ymatebion i'r newid yn yr hinsawdd yn gallu rhoi baich anghymesur ar bobl a chymunedau bregus.

## CYMRU O GYMUNEDAU CYDLYNUS

**YSBRYD CYMUNEDOL:** Mae cymunedau wedi cyd-dynnu yn ystod y pandemig, ac mae'r trigolion wedi nodi'r cynnydd o ran ysbryd cymunedol a chefnogaeth. Dylid cefnogi cymunedau i ffurfio'u dyfodol eu hunain.

**CYMUNEDAU DIOGEL:** Bernir yn gyffredinol bod CNPT yn lle diogel i fyw. Bu gostyngiad mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol a thrais yn erbyn benywod, er ein bod wedi gweld tuedd ar i fyny o ran seiberdroseddu. Mae trigolion CNPT yn pryderu ynghylch cyffuriau yn y cymunedau.

**CYMUNEDAU CYSYLLTIEDIG:** Er bod cysylltiadau da rhwng trefi Castell-nedd, Port Talbot a Phontardawe a'i gilydd ac â gweddill Cymru, mae'r cysylltiadau trafnidiaeth yn ardaloedd y cymoedd yn wael ac yn cyfrannu at ynysu'r bobl sy'n byw yno yn gymdeithasol ac yn economaidd.

**PLANT A PHOBL IFANC:** Mae trigolion CNPT yn teimlo ei fod yn bwysig bod gan blant a phobl ifanc fwy o leoedd i fynd iddyn nhw a phethau i'w gwneud.

## CYMRU Â DIWYLLIANT BYWIOG LLE MAE'R GYMRAEG YN FFYNNU

**TREFTADAETH FALCH:** Mae pobl yn CNPT yn falch o'u treftadaeth a'u cymunedau Cymreig traddodiadol. Mae angen i ni ddiogelu a chadw ein diwylliant, ein hanes a'n treftadaeth naturiol gyfoethog, gan gadw cynhwysedd mewn golwg wrth i'n diwylliant amrywio mwyfwy a gweithio i ddileu stigma hanesyddol sy'n gysylltiedig â'r ardal trwy hyrwyddo'r ardal.

**YR IAITH GYMRAEG:** Er bod nifer y siaradwyr Cymraeg wedi gostwng, mae'r dysgu a'r cyfleoedd addysgol Cymraeg yn cynyddu. Mae angen i ni ddarparu mwy o gyfle i ddefnyddio'r Gymraeg yn CNPT er mwyn cynyddu hyder y trigolion.

**CELFYDDYDAU A DIWYLLIANT:** Mae tangyllido i'r celfyddydau a diwylliant wedi cael effaith negyddol ar yr hyn a gynigir dros y blynyddoedd, ac mae'r pandemig wedi effeithio ymhellach ar hynny. Rydyn ni'n gwybod bod mynediad at y pethau hyn yn ffactor pwysig ar gyfer gwella llesiant.

**GWIRFODDOLI:** Gan fod nifer cynyddol o asedau cymunedol (e.e. canolfannau cymunedol, llyfrgelloedd a safleoedd treftadaeth) yng ngofal gwirfoddolwyr sy'n dibynnu ar arian grant, mae angen i ni roi cefnogaeth i sicrhau bod hyn yn gynaliadwy, fel nad yw asedau o'r fath yn cael eu colli.



## CYMRU SY'N GYFRIFOL AR LEFEL FYD-EANG

**DEFNYDD O ADNODDAU A DATGARBONEIDDIO:** Mae CNPT yn defnyddio 2.5 gwaith yn fwy o adnoddau fesul person nag y gall y blaned gynnal. Ar ben hynny, mae CNPT yn gyfrannwr pwysig at garbon yng Nghymru, ac mae'n wynebu her i gydbwyso nodau Sero Net yn erbyn manteision economaidd ei gyflogwyr ynni/allyriadau uchel.

**ARGYFWNG YR HINSAWDD A BYD NATUR:** Mae CNPT yn arweinydd ym maes ynni adnewyddadwy, gyda chapasiti gosodiadau ynni adnewyddadwy sydd ymhlith yr uchaf yng Nghymru. Mae prosiectau cyfredol i adfer cynefinoedd cyfagos megis cipio carbon o fawndiroedd yn dangos ffyrdd o sicrhau manteision lluosog er mwyn mynd i'r afael ag argyfyngau'r Hinsawdd a Byd Natur yr un pryd.

**PERSONOLIAETHAU ENWOG:** Mae CNPT wedi cynhyrchu actorion, artistiaid a phersonoliaethau chwaraeon bydenwog, sy'n rhoi hunaniaeth fyd-eang i ni, ac mae modd harneisio hynny ymhellach i hyrwyddo'r rhanbarth.

Oherwydd y dull cydlynus a ddefnyddiwyd wrth ddatblygu ein hasesiad, roedd modd i ni gytuno i sicrhau cyfatebiaeth rhwng ein hamcanion llesiant ni a rhai Cyngor CNPT, er mwyn gwneud cynnydd effeithlon a darparu gwerth ychwanegol trosfwaol fel BGC (a ddarlunnir ar dudalen 13).




Ers cwblhau'r Asesiad Llesiant, mae'r argyfwng costau byw wedi gwaethygu, ac mae'n debygol y bydd yn effeithio ar ein holl waith wrth symud ymlaen. Mae hyn, ynghyd ag effeithiau pandemig Covid 19, Brexit ac Argyfyngau'r Hinsawdd a Byd Natur yn golygu ein bod mewn cyfnod heriol. Ein barn ni yw y gallwn, drwy gydweithio'n agosach â'n gilydd, fwyafu ein hadnoddau a'n heffaith, ac rydym wedi ymrwymo i'r dull gweithredu hwn wrth i ni symud tuag at ein Cynllun newydd i'r ardal.

# EIN HAMCANION LLESIANT

## NODAU

- CYMRU LEWYRCHUS
- CYMRU SY'N GYFRIFOL AR LEFEL FYD-EANG
- CYMRU GYDNERTH
- CYMRU Â DIWYLLIANT BYWIOG LLE MAE'R GYMRAEG YN FFYNNU
- CYMRU IACHACH
- CYMRU O GYMUNEDAU CYDLYNUS
- CYMRU SY'N FWY CYFARTAL



| | |
|---|---|
| Amcan Llesiant 1: Bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd | Wrth edrych ar wella llesiant cyffredinol yn ein hardal, mae'n gwneud synnwyr perffaith cychwyn o'r cychwyn, a chanolbwyntio ar genedlaethau'r dyfodol. Yn ein Hasesiad Llesiant roedd pobl yn teimlo'n gryf iawn am addysg eu plant a'u cyfleoedd i ryngweithio'n gymdeithasol, yn enwedig ar ôl yr amser a gollwyd yn ystod y cyfnod clo. Rydyn ni'n gwybod bod gan lawer o blant yn CNPT Anghenion Dysgu Ychwanegol. Rydym hefyd yn sylweddoli bod cysylltiad uniongyrchol â thlodi ac amddifadedd, sy'n cyfyngu ar y cyfleoedd yn ddiweddarach mewn bywyd. Trwy gydweithio i roi'r gefnogaeth a'r dechrau gorau posibl i'n plant, ein nod yw gwella cyfleoedd bywyd a symud tuag at CNPT sy'n fwyfwy cynaliadwy ac yn ffynnu. Mae'r 'Dechrau Gorau mewn Bywyd' yn berthnasol nid yn unig i'r blynyddoedd cynnar, ond hefyd yn cwmpasu'r cyfnod o feichiogiad i 25 oed. |
| Amcan Llesiant 2 : Bydd ein holl gymunedau'n llewyrchus ac yn gynaliadwy | Ategodd ein Hasesiad Llesiant ein gwybodaeth fod gennym gymunedau cryf a chlos yn CNPT. Roedd hyn yn arbennig o amlwg yn ystod pandemig Covid-19, pan fu cymunedau'n cyd-dynnu ac yn cefnogi ei gilydd mewn argyfwng. Rydym am adeiladu ar y cryfder hwn, ond rydym hefyd yn ymwybodol bod amddifadedd wedi'i wreiddio'n ddwfn yn CNPT, a bod ardaloedd crynodol sy'n perthyn i gategori mwyaf difreintiedig Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Mae effaith amddifadedd yn debygol o waethygu yn ystod y blynyddoedd sy'n dod wrth i lefelau tlodi gynyddu (e.e. bwyd a thanwydd), gan effeithio ar y teuluoedd incwm isaf. Mae economi'r Deyrnas Unedig mewn cyfnod o argyfwng. Roedd y pandemig eisoes wedi gwaethygu anghydraddoldeb, ac mae hynny bellach yn cael ei waethygu gan y cynnydd mewn costau byw. Mae angen i'r BGC fynd ati ar frys i weithio ar y cyd er mwyn lliniaru'r caledi ariannol ac effaith hynny ar lesiant, y mae nifer cynyddol o bobl ar draws CNPT yn ei brofi. Mae cymunedau eisoes yn mynd ati i helpu'r rhai sy'n wynebu caledi, a gall y BGC gefnogi'r gweithredu cymunedol hwn trwy ddefnyddio'i adnoddau ac estyn i mewn i gymunedau, fel bod pobl yn gallu dod yn ymwybodol o'r cymorth a'r gefnogaeth sydd ar gael, a sut mae cael mynediad at hynny. Mae'r BGC yn cydnabod gwaith pwysig y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol (PDC) wrth reoli ac ymateb i'r materion allweddol sy'n wynebu CNPT o ran troseddu a diogelwch, ac mae'r bartneriaeth wedi ymrwymo i gydweithio er mwyn cyflawni gostyngiad cynaliadwy mewn troseddu, ofn troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yn ddiweddar, mae'r PDC wedi adolygu eu blaenoriaethau a chytuno ar bum prif flaenoriaeth wrth symud ymlaen, sef ymddygiad gwrthgymdeithasol, cydlyniant cymunedol, defnydd o sylweddau, VAWDASV ac Atal Troseddu. Mae'r PDC yn cydnabod eu bod hefyd wedi ymrwymo i ymgysylltu â'r cyhoedd a chymunedau ar y materion sy'n bwysig iddyn nhw, gan ymdrin â phroblemau mewn dull cydweithredol a rhannu llwyddiannau. Bydd hyn yn galluogi'r PDC i ymateb yn ystwyth i faterion newydd sy'n dod i'r amlwg. Mae'r PDC hefyd yn ymwybodol iawn o ddyletswyddau newydd y PDC sy'n dod i'r amlwg ac y bydd angen eu hadlewyrchu ym mlaenoriaethau neu gamau gweithredu'r PDC. Bydd y BGC yn cefnogi'r gwaith hwn fel rhan o'i gyfraniad at yr Amcanion Llesiant. |
| Amcan Llesiant 3: Bod modd i genedlaethau'r dyfodol fwynhau ein hamgylchedd lleol, ein diwylliant a'n treftadaeth | Mae trigolion Castell-nedd Port Talbot yn gwerthfawrogi treftadaeth naturiol a diwylliannol helaeth yr ardal ac yn gosod gwerth arni. Mae'n rhan annatod o'n hymdeimlad o berthyn a'n cysylltiad â'r lle – "Calon Ddramatig Cymru". Mae ein treftadaeth yn ased sy'n cefnogi ein heconomi leol, gan helpu i ddenu mewnfuddsoddi a chynhyrchu gwerth trwy weithredu gwirfoddol. Ar yr un pryd, gwyddom ein bod yn wynebu argyfwng deuol o ran byd natur a'r hinsawdd. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod peth o'r newid hwn bellach yn amhosibl ei wyrdroi ac os ydym i osgoi tymereddau mwy eithafol fyth, difodiant ar lefel eang a dirywiad pellach yng nghyflwr a dosbarthiad ein hecosystemau lleol, mae angen newid trawsffurfiannol ar frys a hynny ar lefel fyd-eang, ryngwladol a lleol. Mae'n hanfodol ein bod yn meithrin dull cadarnhaol o ymdrin â byd natur wrth i ni gael hyd i'n ffordd allan o Covid ac allan o'r argyfwng economaidd presennol. Fel y dangoswyd yn eglur trwy bandemig Covid, a'i ategu gan dystiolaeth yn yr asesiad llesiant, adnoddau naturiol iach a gwydn yw'r sylfaen ar gyfer ein hiechyd a'n llesiant. Mae ein cymunedau'n dibynnu ar allu byd natur i ddarparu amgylchedd iach a'n hamddiffyn rhag peryglon. Yn ogystal, amlygodd yr Asesiad Llesiant fod ardaloedd incwm isel yn gysylltiedig â thai ac addysg o safon is, deiet gwael, a llai o fynediad at fannau gwyrdd o safon, a theithio llesol. |
| Amcan Llesiant 4: Bod mwy o swyddi gwyrdd, diogel, am gyflog da, a bod sgiliau ar draws yr ardal yn gwella | Mae'r Asesiad Llesiant yn darparu cipolwg diddorol ar economi unigryw CNPT a'i heffaith ar y bobl sy'n byw ac yn gweithio yma. Er gwaethaf cynnydd mewn cyflogaeth, mae tlodi'n dal yn amlwg yn y rhan fwyaf o rannau o Gastell-nedd Port Talbot, ac mae'r ystadegau diweddaraf yn dangos bod o leiaf 15% o'r plant yn byw mewn tlodi ym mhob un o wardiau'r sir. Wedi'r pandemig, mae incwm aelwydydd wedi gostwng, a bu cynnydd yn nifer yr unigolion economaidd segur sydd wedi colli hyder ac yn cael mwy o drafferth sicrhau cefnogaeth. Mae cyfle i bartneriaid gydweithio a mwyafu effaith buddsoddiad yn yr ardal, a chefnogi ein gweithlu i uwchsgilio, gan edrych ar atebion a dulliau gweithredu cynaliadwy. Nod yr amcan hwn fydd cyflawni poblogaeth fedrus, â lefel dda o addysg, mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn darparu cyfleoedd cyflogaeth, fel bod modd i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir trwy sicrhau gwaith teilwng. |

Ar y tudalennau dilynol, rydym yn cyflwyno'r camau y byddwn yn eu cymryd i'n helpu i gyflawni ein hamcanion llesiant a gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Castell-nedd Port Talbot. Rydym yn sylweddoli bod angen gwneud rhagor o waith i ddatblygu camau gweithredu amserol, mesuradwy a phenodol.


Bydd y gwaith hwn yn flaenoriaeth i'r Bwrdd a bydd y camau gweithredu hyn yn amlinellu sut caiff ein hamcanion eu cyflawni a'r gwahaniaeth rydym yn ei wneud.

Bydd manylion yr amserlenni o ran y gwaith fydd yn cynnal pob cam unigol yn cael eu datblygu ymhellach gan sicrhau cydbwysedd rhwng cyflwyno yn y byrdymor ac yng nghyd-destun y blaenoriaethau yn yr hirdymor.

Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo gant y cant i sicrhau y bydd yr holl waith a gyflawnir yn cael effaith ar y pedwar amcan llesiant. Byddwn yn defnyddio dull gweithredu integredig wrth gyflawni pob cam er mwyn osgoi gweithio mewn modd ynysig neu heb ymwneud ag eraill yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Er enghraifft, mae'n bwysig deall bod ein llesiant cymdeithasol ac economaidd hirdymor wedi'i seilio ar lesiant amgylcheddol, a'r ffordd y mae penderfyniadau cymdeithasol ac economaidd yn effeithio ar ein llesiant amgylcheddol.

Fel Bwrdd, rydym hefyd wedi ymrwymo i ddull gweithredu 'Iechyd ym Mhob Polisi' gan ddeall bod anghydraddoldebau iechyd yn codi oherwydd anghydraddoldebau yn y gymdeithas a'r amodau y bydd pobl yn cael eu geni, yn tyfu, yn byw, yn gweithio ac yn heneiddio ynddyn t – gan arwain at lefelau gwahaniaethol o fregusrwydd. Er mwyn gwella iechyd a llesiant, bydd angen sicrhau bod lleihau anghydraddoldebau iechyd yn rhan annatod o bopeth a wnawn.



| AMCAN LLESIANT 1: BOD POB PLENTYN YN CAEL Y DECHRAU GORAU MEWN BYWYD | AMCAN LLESIANT 2 : BYDD EIN HOLL GYMUNEDAU'N LLEWYRCHUS AC YN GYNALIADWY | AMCAN LLESIANT 3: BOD MODD I GENEDLAETHAU'R DYFODOL FWYNHAU EIN HAMGYLCHEDD LLEOL, EIN DIWYLLIANT A'N TREFTADAETH | AMCAN LLESIANT 4: BOD MWY O SWYDDI GWYRDD, DIOGEL, AM GYFLOG DA, A BOD SGILIAU AR DRAWS YR ARDAL YN GWELLA |
|---|---|---|---|

| Camau | Byddwn ni'n cydweithio i wneud y canlynol: |
|---|---|
| Mabwysiadu dull cydlynus o gynnal iechyd meddwl a llesiant ein plant a'n pobl ifanc, fel eu bod yn gallu ffynnu a blodeuo | Ar hyn o bryd mae gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn cael eu dyblygu, ac mae angen i'r rhain gael eu cydlynu'n well fel bod modd diwallu pob angen. Mae angen i deuluoedd fedru cael mynediad hwylus i'r gwasanaethau hyn, a dylid gwreiddio dull gweithredu 'dim drws anghywir'. Mae angen sicrhau gwell aliniad â gwaith rhanbarthol sy'n parhau yn y maes hwn. Trwy fynd ati i gynllunio ar y cyd yn gynharach yn achos llifoedd gwaith newydd, gallwn wneud defnydd mwy effeithlon o arian grant. Mae tystiolaeth o anghenion llesiant sy'n dod i'r amlwg ymhlith plant a phobl ifanc wedi pandemig Covid, ac mae angen dull gweithredu ar y cyd i ymdrin â hynny. |
| Sicrhau, pan fydd ein plant ifancaf yn cychwyn yn yr ysgol, eu bod yn hyderus ac yn barod i ddysgu | Mae data'n dangos, adeg eu derbyn i'r ysgol, fod gan blant yn CNPT sgiliau gwannach na'u cyfoedion mewn llawer o ardaloedd eraill, a bod cysylltiad uniongyrchol â thlodi ac amddifadedd. Mae gan nifer uchel o blant yn CNPT anghenion Iaith, Lleferydd a Chyfathrebu. O'i asesu, mae data derbyn i'r ysgol yn dangos bod gan niferoedd uchel sgiliau llythrennedd, iaith a chyfathrebu sy'n is na'u hoed cronolegol, ac mae'r un peth yn wir yn achos sgiliau personol, cymdeithasol a datblygiadol. Mae angen i ni weithio gyda'n gilydd fel partneriaid i gefnogi'r pontio o leoliadau Blynyddoedd Cynnar i'r ysgol, ochr yn ochr â chynllunio ar gyfer cwricwlwm newydd a chyflawni ein dyletswyddau o ran diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol. Rhaid cefnogi teuluoedd i gael mynediad i raglenni a ariannir megis Dechrau'n Deg a'r cynnig Gofal Plant, ac mae angen cynyddu cyfleoedd chwarae yn ein hardal ar gyfer plant o bob oed. Rydym bellach yn gweld effaith y pandemig; ni fydd llawer o'n disgyblion ifancaf wedi cael y profiadau i ddatblygu sgiliau allweddol, ac mae angen dull gweithredu cydlynus i gefnogi'r plant hyn. |
| Sicrhau gwell aliniad a mynediad at wasanaethau ymyrraeth gynnar er mwyn diwallu anghenion ein plant, ein pobl ifanc a'u teuluoedd | Rydyn ni'n gweld cynnydd sylweddol yn y galw am ein gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac ataliaeth ac mae'r anghenion a gyflwynir yn mynd yn fwyfwy cymhleth. Ni fwriadwyd gwasanaethau a gomisiynwyd, megis y rhai sy'n dod o dan y Grant Teuluoedd yn Gyntaf, i ddelio â'r lefel o angen rydyn ni'n ei gweld, ac mae angen i ni sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn eistedd yn briodol rhwng y cynnig cyffredinol a gwasanaethau statudol. Ar hyn o bryd mae gwasanaethau ymyrraeth gynnar yn cael eu dyblygu ar draws sectorau, ac ochr yn ochr â hynny mae bylchau mewn gwasanaethau ar gyfer anghenion lefel uwch nad ydynt yn cael mynediad at wasanaethau statudol. Mae angen i ni weithio gyda'n gilydd i ddeall beth sy'n cael ei gynnig yn gyffredinol gan bartneriaid ac adolygu pontio a llwybrau ar draws gwasanaethau. Mae angen dull cydlynus o gefnogi disgyblion ag ADY neu anghenion sy'n dod i'r amlwg. |
| Datblygu llwybrau academaidd a galwedigaethol priodol, er mwyn sicrhau bod gan ein holl bobl ifanc sy'n gadael yr ysgol fynediad at gyfleoedd addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant | Ni fydd ein holl blant a phobl ifanc yn ffynnu ar lwybr academaidd traddodiadol. Mae angen i ni gydweithio fel partneriaid a chefnogi datblygiad llwybrau galwedigaethol er mwyn lleihau nifer y bobl ifanc sy'n gadael yr ysgol heb fynd i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth, ac aros yno. |

| Tymor hir | Ataliaeth | Integreiddio | Cydweithio | Cynnwys |
|---|---|---|---|---|
| Trwy fuddsoddi yn ein blynyddoedd cynnar, rydyn ni'n cefnogi llesiant hirdymor ein hardal, ac yn effeithio ar ein holl amcanion llesiant | Rydyn ni am atal problemau plentyndod rhag gwaethygu fel bod angen cefnogaeth ddwys, er mwyn i'n plant fedru symud at oedolaeth yn teimlo'n hyderus a'u bod yn cael eu cefnogi | Trwy gefnogi ein plant i gael y dechrau gorau mewn bywyd rydyn ni'n cael effaith ar ein holl amcanion llesiant ac yn edrych ymlaen at CNPT lewyrchus a chynaliadwy | Ni allwn gyflawni'r camau hyn fel asiantaethau unigol. Mae cydweithio yn allweddol i wneud gwahaniaeth ym mywydau ein plant | Rydyn ni'n ymroddedig i alluogi ein plant a'n pobl ifanc i gael llais. Bydd eu cynnwys yn ein gwaith yn hanfodol os ydym i wneud gwahaniaeth |

| Camau | Byddwn ni'n cydweithio i wneud y canlynol: |
|---|---|
| Sicrhau bod y rhai sydd angen help a chefnogaeth gyda chostau byw yn gwybod pa gefnogaeth sydd ar gael a sut mae cael mynediad ati | Er bod y sefyllfa gyffredinol wedi gwaethygu o ran canlyniadau, cafwyd nifer o fentrau polisi a fydd o fudd i rai pobl sy'n profi tlodi. Mae hyn yn cynnwys: estyn prydau ysgol am ddim i rai plant oed ysgol gynradd; ehangu cyfleusterau gofal plant; i enwi dau yn unig. Mae angen i ni sicrhau bod pobl sydd â hawl i'r gefnogaeth hon yn ymwybodol ohoni ac yn ei derbyn. |
| Nodi bylchau yn y cymorth a'r gefnogaeth a sut gellid rhoi sylw i'r bylchau hynny | Trwy gydweithio'n agos â'n trigolion a'n cymunedau byddwn ni'n gallu nodi ble mae unrhyw un yn cael eu gadael ar ôl neu'n methu derbyn y cymorth angenrheidiol. Yna byddwn ni'n cydweithio fel gwasanaethau cyhoeddus i helpu i roi sylw i hynny. |
| Edrych eto ar y gwaith a wnaed gyda chefnogaeth Sefydliad Bevan cyn y pandemig, ac ailosod yr amcanion a'r camau gweithredu strategol, er mwyn rhoi sylw i achosion gwaelodol tlodi nawr | Bu'r BGC yn cefnogi gwaith cysylltiedig ag ymdrin â thlodi yn CNPT a gychwynnwyd gan Gyngor CNPT, gyda chefnogaeth Sefydliad Bevan, cyn y pandemig. Amharwyd ar hyn cyn i'r rhaglenni gychwyn. Yn ogystal ag ymateb i'r argyfwng dyngarol uniongyrchol, mae angen i'r BGC edrych eto ar y gwaith cynharach, ac ailosod yr amcanion a'r camau gweithredu strategol i wrthweithio achosion gwaelodol tlodi, ar sail y sefyllfa fel y mae nawr.<br><br>Elusen annibynnol yw Sefydliad Bevan sy'n datblygu atebion parhaol i broblemau mwyaf dyrys Cymru. Mae gan y sefydliad arbenigwyr allweddol yn y maes hwn a gallant ein helpu i nodi'r sbardunau y gallwn ddylanwadu arnynt fel partneriaid. |
| Gweithio ar y cyd â'n cymunedau, i leihau troseddu, ofn troseddu a gwneud ein cymunedau'n fwy diogel a chydlynus | Bydd y Bartneriaeth yn cydweithio mewn modd cydlynus a chydgysylltiedig er mwyn mynd i'r afael â'r canlynol.<br>• Ymddygiad Gwrthgymdeithasol<br>• Cydlyniant Cymunedol<br>• Defnyddio Sylweddau (trwy Fwrdd Cynllunio Ardal Bae'r Gorllewin)<br>• Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) (trwy Grŵp Arwain VAWDASV a'r Grŵp Comisiynu Rhanbarthol)<br>• Atal Troseddu (yn cynnwys Troseddau Meddiangar ac Ymgysylltu)<br><br>Bydd grŵp Arwain newydd ar Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn cael ei sefydlu i roi adroddiadau i'r PDC er mwyn sicrhau bod y materion hyn yn cael eu deall ac yn derbyn sylw mewn modd cydlynus. Cyfrifoldeb Grŵp Arwain VAWDASV CNPT yw cyflwyno'r strategaeth VAWDASV gyfredol a newydd (Perthnasoedd Iach ar gyfer Cymunedau Cryfach).<br><br>BCA Bae'r Gorllewin sy'n gyfrifol am gomisiynu, datblygu a chyflwyno gwasanaethau defnyddio sylweddau, ac mae hyn yn cydffinio â'r PDC. Y BCA sy'n cyflawni cyfrifoldebau'r PDC o ran defnyddio sylweddau, ond ar lefel ranbarthol. Y prif flaenoriaethau i'r BCA yw cyflwyno ei fodel iechyd cyhoeddus integredig newydd, dysgu gwersi o Gomisiwn Cyffuriau Bae'r Gorllewin, ac yn y diwedd, lleihau'r niwed a achosir gan ddefnyddio sylweddau, gan gynnwys lleihau nifer y marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau.<br><br>Byddwn yn cynnig cefnogaeth i bobl o gefndiroedd lleiafrif ethnig yng Nghastell-nedd Port Talbot ac yn helpu i wneud ein cymuned yn lle mwy cynhwysol, ochr yn ochr â meithrin perthynas â phobl o'r cefndiroedd hyn. Byddwn yn parhau i ddatblygu cynlluniau, gweithgareddau a rhannu gwybodaeth er mwyn ymgysylltu â'n cymunedau amrywiol a hyrwyddo cydlyniant cymunedol yng Nghastell-nedd Port Talbot, gan gydweithio'n agos â'r Gymdeithas Gymunedol Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig. Byddwn yn amlygu ac yn adrodd ar densiynau cymunedol, themâu a'r effaith bosib ar gydlyniant sy'n effeithio ar gymunedau Castell-nedd Port Talbot, er mwyn cefnogi, tawelu ofnau ac amddiffyn y cyhoedd.<br><br>Mae'r Grŵp Tasg Diogelwch Cymunedol yn fodd i drafod a chydlynu gweithgareddau diogelwch cymunedol gweithredol, pryderon a gweithgareddau ymgysylltu; cytuno ar flaenoriaethau a rennir a chwilio am atebion, a rhoi adroddiadau/uwchgyfeirio'r materion a amlygir i'r PDC. |

| Tymor hir | Ataliaeth | Integreiddio | Cydweithio | Cynnwys |
|---|---|---|---|---|
| Mae yna argyfwng tymor byr, a chamau y gellir eu cymryd i atal rhagor o bobl rhag wynebu argyfwng.<br>Yn y tymor hwy mae angen i'r BGC fyfyrio ar y prif negeseuon a chamau gweithredu o'r Gweithdy 3 Gorwel ar yr argyfwng costau byw a bod yn fwy eglur ynghylch sut mae'n gallu dylanwadu er mwyn cyfrannu at ostyngiad strwythurol mewn tlodi – bydd hynny'n cynnwys mesurau ataliol ac adweithiol. | Trwy weithio gyda phobl a chlywed gan y rhai sy'n darparu'r gefnogaeth rheng flaen, bydd y BGC yn deall yn well achosion gwaelodol tlodi, ac yn sgîl hynny, mewn sefyllfa well i ganfod ble mae ganddo ddylanwad uniongyrchol a ble mae angen iddo ddylanwadu ar eraill i weithredu. | Mae'r camau gweithredu'n cefnogi pob un o'r pedwar amcan llesiant, a luniwyd i fod yn rhyng-gysylltiedig. | Mae'r camau'n ymrwymo i gydweithio ar y lefel ehangach, nid ymhlith sefydliadau'r BGC yn unig, ond gyda'r gymuned, pobl sydd â phrofiad bywyd, gweithwyr rheng flaen, y sector preifat a'r trydydd sector. | Elfen ganolog o'r camau gweithredu hyn yw ymrwymiad i gyd-gynhyrchu trwy weithio gyda phobl sydd â phrofiad bywyd a'r rhai sy'n darparu'r gwasanaethau rheng flaen. |

| Camau | Byddwn ni'n cydweithio i wneud y canlynol: |
|---|---|
| Cymryd camau ar y cyd i daclo argyfwng yr hinsawdd (addasu a lliniaru) | Castell-nedd Port Talbot sy'n cyfrannu fwyaf at CO2 yn y Deyrnas Unedig, ond dylanwadwyd ar y ffigur hwnnw gan allyriadau'r gwaith dur. Yma hefyd y ceir y capasiti uchaf ar gyfer ynni adnewyddadwy ar y lan yng Nghymru. Rydym mewn sefyllfa i weithredu ar y cyd fel BGC, a gallem gael effaith yng nghyswllt y cam hwn trwy wneud y canlynol:<br><br>• Lleihau'r defnydd o garbon i sero net erbyn 2030, gan gydweithio i rannu arfer da a dulliau cydweithredol o ymdrin â chynlluniau a chamau gweithredu lleihau carbon<br>• Cynyddu llythrennedd carbon a dylanwadu ar newid cadarnhaol o ran ymddygiad<br>• Nodi a lliniaru'r risgiau allweddol mae pobl a chymunedau CNPT yn eu hwynebu yn sgîl y newid yn yr hinsawdd, e.e. trwy atebion seiliedig ar fyd natur – seilwaith gwyrdd trefol, atafaelu carbon a'i storio trwy reoli cynefinoedd, creu coetir, ac adfer mawndir |
| Cymryd camau ar y cyd i daclo argyfwng byd natur a gwella iechyd ein hecosystemau | Er bod gan y sir amgylchedd naturiol helaeth, mae'r Asesiad Llesiant yn amlygu'r dirywiad yng nghyflwr llawer o gynefinoedd mosaig cyfoethog CNPT a'u bywyd gwyllt cysylltiedig sydd dan fygythiad. Gallwn ni gydweithio yn erbyn hyn trwy wneud y canlynol:<br><br>Sicrhau ein bod ni'n ystyried, yn ein holl brosesau gwneud penderfyniadau, sut byddwn ni'n cynnal a gwella bioamrywiaeth, ac yn hyrwyddo cadernid ecosystemau. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys:<br>• Rhoi sylw i'r camau gweithredu a nodwyd yng Nghynllun Gweithredu Adfer Natur Partneriaeth Natur Leol CNPT;<br>• Gwella'r rheolaeth ar dir cyhoeddus a mynediad ato er budd bioamrywiaeth;<br>• Dylanwadu ar bolisïau/ddyraniadau yn y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig a chefnogi ei weithrediad;<br>• Datblygu Strategaeth Seilwaith Gwyrdd i amlygu cyfleoedd ac anawsterau yn y sir ynghylch mynediad y cyhoedd at fannau gwyrdd a chyfleoedd i greu mannau newydd a gwell,<br>• Gwneud byd natur yn rhan o strategaethau partner, polisïau a chyflwyno gwasanaethau;<br>• Rheoli'r pwysau a achosir gan rywogaethau goresgynnol<br>• Galluogi mwy o gyfleoedd i wirfoddoli ar brosiectau natur trwy nodi partneriaid allweddol (e.e. CGGCNPT) i gefnogi'r cydlynu a'r cyfathrebu rhwng prosiectau a grwpiau gwirfoddoli amgylcheddol er mwyn datblygu ffynhonnell gynaliadwy o gefnogaeth ar gyfer cyflawni camau gweithredu, ochr yn ochr â chynyddu ymwybyddiaeth a sgiliau'r cyhoedd<br>• Cynyddu proffil bioamrywiaeth a'r rôl sydd gan holl bartneriaid y BGC wrth daclo argyfwng byd natur<br>• Amlygu'r camau gweithredu cadarnhaol y mae angen i bob un o bartneriaid y BGC eu cymryd ac arddangos y cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r camau hyn<br>• Sicrhau bod gan bawb yr wybodaeth, y sgiliau a'r mathau o ymddygiad sy'n ofynnol er mwyn eu galluogi i gefnogi a gwreiddio atebion seiliedig ar fyd natur mewn gweithgareddau pob dydd |

| | |
|---|---|
| **Cymryd camau ar y cyd i amlygu'r gyd-ddibyniaeth rhwng camau gweithredu yng nghyswllt cynnal a gwella cymunedau gwydn ac amgylchedd naturiol gwydn** | Mae'r BGC yn cydnabod bod angen i'n cymunedau a'n hamgylchedd fod yn wydn yn wyneb yr heriau fydd yn eu hwynebu o ran iechyd a llesiant yn sgîl argyfwng yr hinsawdd ac argyfwng byd natur a bod hyn yn berthnasol i holl amcanion y BGC. Mae angen i ni gynnal a gwella gallu ein byd natur lleol i ddarparu bwyd iach, dŵr, aer ac ynni glân a'n hamddiffyn ni rhag peryglon megis llifogydd a thymheredd eithafol.<br><br>Er mwyn creu swyddi cynaliadwy, cefnogi economi mwy effeithlon o ran adnoddau a chynnal cymunedau iach, egnïol, cynaliadwy a chysylltiedig, bydd y BGC yn gweithio gyda phartneriaid a chymunedau i wneud y canlynol:<br><br>• Cyflwyno rhaglen hyfforddi i bartneriaid y BGC ynghylch argyfwng yr hinsawdd ac argyfwng byd natur, er mwyn datblygu dealltwriaeth fwy integredig o anghydraddoldebau, risgiau a pheryglon amgylcheddol ac edrych ar gyfleoedd i ddefnyddio atebion seiliedig ar natur i leihau'r anghydraddoldebau hyn a sicrhau bod y pontio i Gymru Sero Net yn cael ei reoli'n ofalus a'i fod yn deg a chyfiawn.<br>• Darparu cymorth rhwng partneriaid y BGC yng nghyswllt proses cynllunio Adran 6 y Ddyletswydd Bioamrywiaeth, datblygu'r dystiolaeth sydd eisoes yn bodoli a chreu mapiau gofodol o'r diffygion a nodwyd yn y ddarpariaeth seilwaith gwyrdd (teithio llesol, mannau gwyrdd/glas, coed trefol) er mwyn amlygu cyfleoedd i wella mynediad i bawb. |
| **Annog ymgysylltu a chyfranogi mewn gweithgareddau diwylliannol a dathlu a diogelu ein hasedau diwylliannol** | Mae Castell-nedd Port Talbot yn ardal sydd â chyfoeth o ddiwylliant a hanes, gyda threftadaeth adeiledig a naturiol bwysig ac amrywiol, rhwydwaith cryf o wirfoddolwyr, ac amrywiaeth o wyliau cymunedol. Er gwaethaf hyn, mae ganddi gyfranogiad is na chyfartaledd Cymru yn y celfyddydau, a gweithgareddau diwylliant neu dreftadaeth. Mae gan y cwricwlwm newydd i Gymru bedair prif nod sy'n cyfateb i amcanion y BGC ei hun (Dysgwyr uchelgeisiol a galluog; mentrus a chreadigol; dysgwyr egwyddorol a gwybodus; iach a hyderus). Dyma rai enghreifftiau o sut gallem ni symud y cam yma ymlaen:<br>• Ymgysylltu â phobl ifanc trwy gyflwyno'r cwricwlwm ysgol newydd, yn arbennig yng nghyswllt cynyddu dinasyddiaeth Gymreig a'r cysyniad o ddinasyddiaeth fyd-eang<br>• Darparu rhagor o gyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r Gymraeg a hyrwyddo pwysigrwydd yr iaith i'n diwylliant<br>• Cydnabod a hyrwyddo enwau lleoedd Cymraeg yn lleol, a'u rhan yn adlewyrchu ein treftadaeth naturiol a diwylliannol<br>• Cefnogi a hwyluso gweithredu dan arweiniad y gymuned, gwirfoddoli ac arddangos enghreifftiau da, e.e. llyfrgelloedd sydd yng ngofal y gymuned, prosiectau amgylcheddol cymunedol, a grwpiau hanes/cyfeillion lleol sy'n cyfrannu'n sylweddol at ddiogelu a hyrwyddo ein hasedau hanesyddol (diriaethol a haniaethol) ar draws y fwrdeistref<br>• Gwella cydlyniant cymunedol a lleihau ynysu cymdeithasol trwy fuddsoddi mewn datblygu adnoddau diwylliannol, lleihau'r rhwystrau i gael mynediad at yr adnoddau hyn, ac annog cyfranogiad mewn gweithredu cymunedol a datblygu |

| Tymor hir | Ataliaeth | Integreiddio | Cydweithio | Cynnwys |
|---|---|---|---|---|
| Mae angen i ni weithredu, a chynnal y gweithredu hwnnw, gan ddeall a rhoi sylw i achosion gwaelodol systemig a sicrhau newid trawsffurfiannol | Trwy gydweithio gallwn ni helpu i atal a gwyrdroi'r gwaethygu o ran sefyllfa'r newid yn yr hinsawdd a cholli ein bioamrywiaeth | Roedd yn eglur wrth ddadansoddi canfyddiadau'r asesiad bod ein hamgylchedd naturiol yn effeithio ar bob agwedd ar ein llesiant, a'i fod yn rhan hanfodol o bob un o'n hamcanion | Ni all unrhyw bartner unigol gyflawni newid ar ei ben ei hun. Fel Bwrdd rydyn ni wedi ymrwymo i gydweithio a derbyn cyfrifoldeb cyfartal er mwyn rhoi sylw i'r amcan hwn | Mae gan bawb ran i'w chwarae yn yr amcan hwn. Byddwn ni'n cynnwys ein cymunedau yn ein penderfyniadau llif gwaith ac yn eu cefnogi i helpu i gynnal a gwella eu hardal leol. |

| **Camau** | Byddwn ni'n cydweithio i wneud y canlynol: |
|---|---|
| Datblygu economïau Cylchol a Sylfaenol ac annog pobl a busnesau lleol i wario mwy o arian yn CNPT | Mewn ymateb i bandemig Covid-19 sefydlwyd Partneriaeth Economaidd amlasiantaeth yn CNPT. Mae'r bartneriaeth hon yn cydnabod y cyfle i gydweithio a datblygu economïau mwy blaengar a chynaliadwy ar gyfer yr ardal.<br><br>**Economi Gylchol**<br>• Model cynhyrchu a threuliant sy'n cynnwys rhannu, prydlesu, ailddefnyddio, atgyweirio, adnewyddu ac ailgylchu deunyddiau a chynnyrch sydd eisoes yn bodoli cyhyd â phosibl.<br>• Ei nod yw taclo heriau byd-eang fel y newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth trwy ddileu gwastraff a llygredd, cylchdroi cynnyrch a deunyddiau, ac adfywio byd natur.<br><br>**Economi Sylfaenol**<br>• Y rhan honno o'r economi sy'n creu ac yn dosbarthu nwyddau a gwasanaethau y mae pawb yn eu defnyddio (beth bynnag yw eu hincwm a'u statws), oherwydd eu bod yn cynnal bywyd pob dydd. Mae cyfle i ni fel gwasanaethau cyhoeddus sicrhau bod mwy o'n gwariant cyhoeddus yn dod â budd uniongyrchol i'r bobl yn ein hardal.<br>• Mae hefyd yn darparu cyflogaeth ac incwm hanfodol i lawer o aelwydydd yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig; a chan fod cyfoeth a gynhyrchir gan y busnesau hynny fel arfer yn aros yn y gymuned leol, mae'n bwysig ein bod yn mabwysiadu dull ar y cyd o gefnogi'r sector. |
| Annog economi leol adnewyddol lle caiff effeithiau cynhyrchu a threuliant eu lleihau | Os ydym i sicrhau ein llesiant yn y dyfodol, mae angen newid trawsffurfiannol arnom yn ein systemau Bwyd, Ynni a Thrafnidiaeth, a symud at economi fwy adnewyddol, sy'n diogelu ein hadnoddau naturiol. Gallai'r BGC chwarae ei ran yn hyn trwy wneud y canlynol:<br><br>• Nodi a mwyafu cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant sgiliau a chyflogaeth yn lleol, mewn perthynas ag adferiad gwyrdd yn CNPT, e.e. gwyddonwyr, ecolegwyr, peirianwyr, rheolwyr cefn gwlad a chadwraeth, yn ogystal â'r sgiliau crefftwyr sy'n angenrheidiol i gynnal asedau treftadaeth<br>• Penderfynu ar ein llwybr adferiad economaidd "gwyrdd", gyda thegwch yn ganolog i'n penderfyniadau a chan roi sylw i argyfyngau byd natur a'r hinsawdd ochr yn ochr<br>• Cynnal archwiliad cynaliadwyedd (defnydd o adnoddau ac ynni, rheoli gwastraff) i ganfod cyfleoedd ar gyfer synergeddau, rhannu arfer gorau, a chyfleoedd i leihau gwastraff a defnyddio safleoedd partner ac asedau i ddatblygu ynni adnewyddadwy<br>• Hybu creu system fwyd gynaliadwy, datblygu cadwyni cyflenwi lleol, a hyrwyddo cynnyrch lleol<br>• Cefnogi datblygiad system drafnidiaeth gynaliadwy, gyda phwyslais ar opsiynau teithio llesol ac ymdrechu i sicrhau mynediad cyfartal i bawb<br>• Amlygu cysylltiadau a galluogi cyfleoedd i greu cysylltiad rhwng cynhyrchu, treuliant a bwyta'n iach |
| Cynyddu nifer y cyfleoedd o ran prentisiaethau, cyfnodau dan hyfforddiant a lleoliadau gwaith yn yr ardal leol, a chefnogi mwy o bobl i gael mynediad iddyn nhw | Trwy'r Bartneriaeth Economaidd, mae cyfle i ffurfioli "dull cydlynus, cydgysylltiedig o gyflwyno hyfforddiant sgiliau i'r gweithlu a pharatoi trigolion ar gyfer cyflogaeth", h.y. Prentisiaethau i gefnogi'r economi carbon isel, datblygu cyfleoedd profiad gwaith, a chynyddu cysylltiadau rhwng darparwyr busnes ac addysg, yn arbennig mewn perthynas â chyngor gyrfaoedd. |

| | |
|---|---|
| Cefnogi mwy o bobl i gyflawni cymwysterau ar y lefel angenrheidiol sy'n gysylltiedig â'r sgiliau y mae ar gyflogwyr lleol eu hangen yn awr ac yn y dyfodol | Yn gyffredinol, mae galwedigaethau yn CNPT yn dal i feddu ar lefel is o sgiliau, o gymharu â chyfartaledd y Deyrnas Unedig. Mae cyfle i bartneriaid gydweithio i uwchsgilio ein gweithlu er mwyn ymateb i'r galw tymor hir am swyddi yn yr ardal, gan sicrhau bod pobl yn cael cyfle i gyflawni'r lefel briodol o gymwysterau sy'n angenrheidiol. |
| Sicrhau bod busnesau lleol, pobl leol a chymunedau yn elwa i'r eithaf o fuddsoddi pwysig o'r tu allan yn yr ardal, p'un a yw hynny eisoes yn bodoli neu wedi'i gynllunio | Gan fod sawl buddsoddiad posibl ar y gorwel i CNPT, rydyn ni wedi ymrwymo fel partneriaid i gydweithio i gefnogi a hwyluso'r buddsoddiadau hyn a sicrhau bod trigolion a busnesau yn yr ardal leol yn teimlo mantais hynny. Mae hyn hefyd yn berthnasol i fuddsoddiadau sydd eisoes yn bodoli yn yr ardal, y byddwn ni'n parhau i'w cefnogi a chydweithio â nhw gymaint â phosibl. Mae cyfle i ganolbwyntio ar gaffael nwyddau a gwasanaethau mewn modd blaengar i gefnogi twf busnes a chyflawni llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yn lleol. |

| Tymor hir | Ataliaeth | Integreiddio | Cydweithio | Cynnwys |
|---|---|---|---|---|
| Ein bwriad yw edrych mor bell i'r dyfodol â phosibl, gan sicrhau bod gennym ni'r sgiliau cywir ar gyfer swyddi yn y dyfodol, a datblygu ein heconomi mewn modd gwyrdd a chynaliadwy. | Mae angen gweithredu i atal llwybr tlodi tuag i lawr trwy archwilio'r achosion gwaelodol a chymryd camau ar y cyd. | Mae'r economi yn cael effaith ar draws ein holl amcanion ac mae cysylltiadau penodol ag amcan yr amgylchedd o ran y gwaith sy'n mynd rhagddo. | Mae hyn yn allweddol i sicrhau bod ein heconomi leol yn gwneud cynnydd. Rydyn ni wedi ymrwymo i gydweithio fel partneriaid, a hefyd gyda'n busnesau sector preifat. | Bydd angen cynnwys pobl yn eang i symud yr amcan hwn ymlaen, o unigolion a chymunedau i fusnesau bach a gweithgynhyrchwyr mawr, y bydd eu mewnbwn yn hanfodol i sicrhau llwyddiant. |

# LLYWODRAETHU

Er mwyn gwneud y defnydd gorau o adnoddau, mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i ddefnyddio partneriaethau sydd eisoes yn bodoli lle bydd modd er mwyn sbarduno'r gwaith hwn. Mae'r tabl isod yn dangos y partneriaethau, llawer ohonynt yn rhai sefydledig â pherthnasoedd gwaith a ffurfiwyd ers tro, a fydd yn gyfrifol am arwain y camau a'r amcanion llesiant ar ran y Bwrdd. Mae'r cynrychiolwyr yn y partneriaethau hyn wedi'u cynnwys isod a bydd y rhain yn agored i newid wrth i'r ffrydiau gwaith ddatblygu. Rydym yn credu y bydd y dull gweithredu hwn yn ein helpu i osgoi dyblygu gwaith a datblygu gwaith a pherthnasoedd sydd eisoes yn bodoli. Mae'n bwysig ailddatgan y bydd y strwythur llywodraethu hwn yn ein helpu i sbarduno'r camau a nodwyd yn y Cynllun ond bwriad y Bwrdd yw bod pob ffrwd waith yn cael effaith ar ein holl amcanion llesiant ac na ddylai'r un elfen o'r Cynllun hwn gael ei datblygu ar ei phen ei hun.

## Y dechrau gorau mewn bywyd

**Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc**

- Cyngor Castell-nedd Port Talbot
- Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot
- Adran Gwaith a Phensiynau
- Grŵp Colegau NPTC
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

## Cymunedau llewyrchus a chynaliadwy

**Partneriaeth Costau Byw ac Atal Tlodi**

- Cyngor Castell-nedd Port Talbot
- Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot
- Sefydliadau'r Trydydd Sector
- Grwpiau cymunedol lleol

**Partneriaeth Diogelwch Cymunedol**

- Cyngor Castell-nedd Port Talbot
- Heddlu De Cymru
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
- Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol

## Amgylchedd, diwylliant a threftadaeth

**Grŵp yr Amgylchedd**

- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cyngor Castell-nedd Port Talbot
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
- Heddlu De Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
- TATA Steel
- Tai Coastal
- Tai Tarian
- Grŵp Pobl
- Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot
- Prifysgol Abertawe

**Partneriaeth Diwylliant a Threftadaeth**

Bydd aelodaeth y grŵp hwn yn datblygu ochr yn ochr â'r Strategaeth Diwylliant a Threftadaeth newydd ar gyfer Castell-nedd Port Talbo

## Swyddi gwyrdd, diogel am gyflog da a sgiliau gwell

**Partneriaeth Economaidd Leol**

- Cyngor Castell-nedd Port Talbot
- Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot
- Heddlu De Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
- Tai Tarian
- Tai Coastal
- Grŵp Pobl
- NGrŵp Colegau NPTC
- Prifysgol De Cymru
- Busnesau lleol a grwpiau cymunedol
- Adran Gwaith a Phensiynau
- Llywodraeth Cymru

**Partneriaeth Natur Leol**

Mae Partneriaeth Natur CNPT yn cynnwys cynrychiolwyr o ystod eang o sefydliadau ynghyd ag unigolion sydd â diddordeb mewn bywyd gwyllt lleol a rheoli tir

# MONITRO A GWERTHUSO

Pan gyhoeddir y Cynllun hwn, un o flaenoriaethau'r Bwrdd fydd cynnal cyfres o sesiynau gweithdy i ddatblygu Cynlluniau Cyflawni Deilliannau gan ddefnyddio methodoleg Theori Newid. Cyfeirir at y Cynlluniau hyn hefyd fel Modelau Rhesymeg a byddant yn gyfle i ni ystyried cymhlethdodau'r materion sy'n ein hwynebu, gan wneud hynny mewn modd eglur a chan sicrhau bod ein holl randdeiliaid yn rhan o'r broses o glustnodi'r dystiolaeth bresennol, y tybiaethau a'r risgiau cysylltiedig.

Rydym yn credu y bydd cymryd amser i gwblhau'r broses hon yn fodd i sicrhau ein bod yn dod i gytundeb clir ynghylch ein nodau terfynol a sut byddwn yn eu cyflawni ac yn helpu i lunio cynllun manwl ar gyfer monitro cynnydd a gwerthuso llwyddiant.

Bydd y Modelau Rhesymeg hyn yn disgrifio ein dull o ystyried canlyniadau hirdymor ac yn ffurfio rhan o'r broses adroddiadau blynyddol. Bydd cynnwys pobl yn allweddol wrth i ni ddatblygu'r Modelau Rhesymeg hyn ac yn dod yn rhan ganolog o'r broses gyfan. Ein bwriad yw monitro ystod o ddangosyddion lefel uchel, y nodir rhai enghreifftiau ohonynt isod, er mwyn gwirio ein cynnydd. Mae'r rhain yn debygol o ddatblygu a newid wrth i'n proses fonitro ddatblygu.

**Enghreifftiau o ddeilliannau/ddangosyddion**

| | |
|---|---|
| **Enghreifftiau o sgorau llesiant** | • % Pwysau Geni Isel<br>• % sy'n smygu yn wythnos 36<br>• % sy'n bwydo ar y fron ar ddiwrnod 10<br>• % sydd wedi cael y brechiadau diweddaraf<br><br>• % y plant sy'n "barod i fynd i'r ysgol"<br>• % o blant â phwysau iach yn 5 oed<br>• % y plant 5 oed y mae eu hiechyd yn y geg yn dda<br>• % y plant mewn tlodi<br><br>• Nifer yr oedolion ifanc ag addysg lefel NVQ4+<br>• Nifer yr oedolion hŷn mewn addysg<br>• Nifer y bobl ifanc sydd heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant<br>• Nifer y plant sy'n cyflawni Lefel Dda o Ddatblygiad (GLD) ar ddiwedd blwyddyn derbyn<br><br>• Nifer yr aelwydydd sydd mewn tlodi tanwydd<br>• Nifer yr aelwydydd sy'n wynebu ansicrwydd bwyd<br>• Nifer yr aelwydydd â phroblemau dyled<br>• Cyfradd diweithdra<br>• Nifer yr unigolion sy'n defnyddio banciau bwyd<br>• Nifer yr unigolion sy'n ceisio cymorth gan Cyngor ar Bopeth<br>• Enghreifftiau o ddeilliannau/ddangosyddion: 25 |

| | |
|---|---|
| | • Nifer yr eiddo (cartrefi a busnesau) sy'n wynebu perygl canolig neu uchel o lifogydd o afonydd a'r môr.<br>• Anheddau â pherfformiad ynni digonol (%)<br>• Lefelau'r llygredd nitrogen deuocsid (NO2) yn yr aer.<br>• Pobl sy'n bresennol neu'n cyfranogi mewn gweithgareddau celfyddydol, diwylliannol neu dreftadaeth o leiaf deirgwaith y flwyddyn (%)<br>• Pobl sy'n cyfranogi mewn gweithgareddau chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos (%)<br>• Pobl sy'n fodlon ar eu gallu i gyrraedd / gyrchu'r cyfleusterau a'r gwasanaethau mae arnynt eu hangen (%)<br>• Pobl sy'n teimlo bod modd iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol (%)<br><br>• Cyfradd cyflogaeth - cyflogaeth barhaol ac amharhaol (%)<br>• Cyfradd diweithdra (%)<br>• Cyfradd diweithdra hirdymor (%)<br>• Cyfradd diweithdra ieuenctid (%)<br>• Cyfradd gweithgarwch economaidd (%)<br>• Cyfradd anweithgarwch economaidd (%)<br>• Cyfradd cyflogaeth yn ôl statws anabledd (%)<br>• Cyfran sy'n derbyn Credyd Cynhwysol (%)<br>• Tâl canolrifol (£)<br>• Tlodi mewn gwaith (%)<br>• Enillion sydd gyfuwch neu'n uwch na Chyflog Byw Cymru (%)<br>• Prentisiaethau (%)<br>• Absenoldebau salwch (%)<br>• Bwlch cyflog cyfartalog rhwng y rhywiau |
| **Ynni Adnewyddadwy** | • Capasiti'r cyfarpar ynni adnewyddadwy a osodwyd<br>• Cyfran yr ynni a gynhyrchir o ffynonellau adnewyddadwy |
| **Bioamrywiaeth** | • Cyflwr nodweddion ACA a rhywogaethau AGA ar safleoedd yng Nghymru<br>• Cyflwr Byd Natur – Y rhywogaethau a'r cynefinoedd yn y rhestr Adran 7 o rywogaethau a chynefinoedd â Blaenoriaeth yng Nghymru.<br>• Statws dosbarthiad rhywogaethau â blaenoriaeth<br>• Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol – Digonedd grwpiau o rywogaethau morol |
| **Ansawdd Aer** | • Ardaloedd o gynefin sensitif lle ceir mwy na'r llwythi critigol sy'n achosi asideiddio ac ewtroffigedd, Cymru<br>• Newid yng nghrynodiad yr osôn cefndir |
| **Yr Hinsawdd** | • Allyriadau nwyon tŷ gwydr tiriogaethol fesul sector (sy'n cyfateb i filiwn o dunelli o garbon deuocsid)<br>• Cyfanswm nifer yr eiddo (preswyl ac amhreswyl) sy'n wynebu perygl uchel neu ganolig o lifogydd o afonydd a'r môr |

| | |
|---|---|
| **Dŵr** | • Cyrff dŵr y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr sy'n methu cyflawni eu hamcanion oherwydd newidiadau i lifoedd a lefelau dŵr.<br>• % y cyrff dŵr croyw sy'n cyflawni statws cyffredinol da neu uchel o ran ansawdd dŵr ymdrochi<br>• % y cyrff dŵr Arfordirol a Morydol sy'n cyflawni statws cyffredinol da neu uchel<br>• % y profion ar gyflenwadau dŵr cyhoeddus sy'n methu cyrraedd y safonau cenedlaethol<br>• % y dyfroedd ymdrochi dynodedig sy'n cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Dŵr Ymdrochi<br>• Allyriadau llygryddion blynyddol i'r aer |
| **Gwastraff** | • Nifer yr achosion o dipio anghyfreithlon a gofnodwyd gan yr Awdurdod Lleol<br>• Tunnell o wastraff wedi'l ailddefnyddio/ailgylchu/gompostio |
| **Priddoedd** | • Crynodiad y carbon a'r deunydd organig yn y pridd |
| **Mynediad at fannau gwyrdd iach** | • % y tirweddau y gwerthuswyd eu bod o safon ragorol neu uchel o ran buddion gweledol a synhwyraidd<br>• % o'r boblogaeth sy'n ymweld â mannau awyr agored o leiaf unwaith bob pedair wythnos<br>• % o'r boblogaeth sydd wedi gwirfoddoli â grŵp amgylcheddol o leiaf unwaith yn ystod y 12 mis diwethaf<br>• % o'r boblogaeth sy'n gwneud Gweithgaredd Corfforol Cymedrol neu Egnïol am gyfanswm o 150 munud yr wythnos trwy hamdden awyr agored<br>• Llwybrau teithio llesol (cyfanswm y pellter)<br>• Y nifer sy'n defnyddio llwybrau teithio llesol |



## CYSYLLTU Â NI

Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi ymrwymo i ddarganfod ffyrdd newydd a mwy effeithiol o gynnwys pobl leol yn ei waith.

Byddem yn hoffi clywed eich barn ar ein Cynllun Llesiant. Os hoffech chi gyfrannu at ein gwaith neu os oes gennych unrhyw awgrymiadau ynghylch sut mae gwella llesiant pobl yn ardal Castell-nedd Port Talbot, byddem yn falch o glywed gennych. Anfonwch eich sylwadau at y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Canolfan Ddinesig, Port Talbot, SA13 1PJ neu trwy'r e-bost i'r cyfeiriad: psb@npt.gov.uk

Edrychwch ar wefan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus: www.nptpsb.org.uk



BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS
CASTELL-NEDD PORT TALBOT

# CYNLLUN LLESIANT 2023-28